# Pennaeth Addysg
# Head of Education
Arwyn Thomas

Gofynnwch am/Ask for: **Arwyn Thomas**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **AT/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
arwynthomas@gwynedd.gov.uk

28 Ionawr 2015

**At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd**

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Ymgynghoriad Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion***

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi oddeutu £2.5m ar gryfhau'r isadeiledd sy'n paratoi cysylltiadau diwifr yn yr ysgolion gan gyflymu'r cysylltedd i isafswm o 10mbps i ysgolion cynradd a 100mbps i ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd gyda mwy na 300 o ddisgyblion. Mae oblygiadau refeniw parhaol i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae cyfanswm cost y ddarpariaeth yn £577mil y flwyddyn, gyda chyllideb ar gael gan y Cyngor o £307mil a'r gweddill o £270mil yn cael ei ddarparu trwy grant gan Lywodraeth Cymru hyd at Fawrth 2015. O Ebrill 2015 mae'r grant yn cael ei ddileu a'r gost ychwanegol a pharhaol o £270mil yn disgyn ar ysgolion -

| | Costau 2015/16 | Cyllid ar Gael | Cost Ychwanegol i Ysgolion |
|---|---|---|---|
| 'Circuits' | £275mil | £133mil | £142mil |
| Isadeiledd | £186mil | £174mil | £12mil |
| Cefnogi Gwasanaeth Diwifr | £116mil | - | £116mil |
| **cyfanswm** | **£577mil** | **£307mil** | **£270mil** |

Mae mwy o gefndir i'r cynllun ar gael trwy'r linc isod i adroddiad yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid gyflwynwyd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 3 Tachwedd 2014 (gweler eitem 6) –

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Fforwm Cyllideb Ysgolion_Schools Finance Forum/2014-11-03

Bwriad y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yw codi pris o £577mil ar ysgolion yn 2015/16. Bydd yr ysgolion yn derbyn dyraniad cyfwerth £307mil i gyfrannu tuag at y gost, sydd yn gadael gweddill o £270mil y bydd rhaid i ysgolion ei ddarganfod o fewn eu cyllidebau am 2015/16. Mae'r gost yma wedi'i gyflwyno fel rhan o ragolygon 3 mlynedd anfonwyd at ysgolion yn ystod mis Tachwedd 2014.

I ddyrannu'r cyllid sydd ar gael o £307mil rhaid cael fformiwla i'w ddosbarthu. ***Bwriad yr Awdurdod, a'r hyn yr ydym yn ymgynghori â fo, ydi dosbarthu ar sail*** -

| | |
|---|---|
| Gwir gost llogi 'circuits' | £275mil |
| Isadeiledd ar sail nifer disgyblion | £186mil |
| Cefnogi gwasanaeth diwifr ar sail nifer disgyblion | £116mil |
| Cyfanswm cost 2015/16 | **£577mil** |
| **Dyraniad pro-rata i'r cyfanswm cost (53.66% o'r gost)** | **£307mil** |

Atodaf dabl sydd yn dangos yr holl gostau (£577mil) fesul ysgol, gwerth y dyraniad (£307mil) i bob ysgol ac hefyd y gost ychwanegol (£270mil) fydd yn disgyn ar gyllideb pob ysgol unigol.

Os hoffech gyflwyno sylwadau **ar y sail dyrannu** **(nid ar y gost ychwanegol i ysgol sydd yn anorfod, na'r gwasanaeth ei hun)** gofynnaf i chi wneud hyn a'u hanfon ataf erbyn **diwedd y dydd, ddydd Mercher 18 Chwefror 2015** os gwelwch yn dda – i sylw Annie Sanson anniesanson@gwynedd.gov.uk

Byddaf yn adrodd ar yr ymgynghori i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac i Gabinet Y Cyngor gan ofyn am eu cefnogaeth i weithredu yn 2015/16.

Yn gywir

*Arwyn Thomas*

**Arwyn Thomas**
**Pennaeth Addysg**